HYSBYSIAD O GAIS

AM ORCHYMYN I GAU PRIFFORDD

YN AMODOL AR GADW HAWLIAU LLWYBR CEFFYLAU

ADRAN 116 O DDEDDF PRIFFYRDD 1980

HYSBYSIR bod Cyngor Sir Caerfyrddin, fel yr Awdurdod Priffyrdd, yn bwriadu gwneud cais i'r Llys Ynadon yn Sgwâr Neuadd y Dref, Llanelli SA15 3AW ar ddydd Gwener, y 18fed o Ragfyr 2026 am 12 hanner dydd, am orchymyn i gau:

(a) y darn o'r Ffordd Ddiddosbarth (Cyfeirnod U4361) o Ffordd Pantyblodau yn y dwyrain, gan ddechrau i'r gorllewin o'r eiddo a elwir 'Glan y Nant' a pharhau tua'r gorllewin ac yna'r gogledd-orllewin am oddeutu 1.25 cilometr, a gorffen wrth ffin ddeheuol gorsaf Dŵr Cymru Cyfyngedig; a'r

(b) darn o'r Ffordd Ddiddosbarth (Cyfeirnod U2136) sy'n arwain o'r Ffordd Ddiddosbarth (Cyfeirnod U4361) i gyfeiriad y de am oddeutu 348 o fetrau hyd at ei gyffordd â Ffordd y C2136; a'r

(c) darn o Ffordd y C2136 o oddeutu 44 o fetrau i'r gorllewin o'i gyffordd â'r Ffordd Ddiddosbarth (Cyfeirnod U4361) i gyfeiriad y dwyrain am oddeutu 726 o fetrau, ger ffin orllewinol yr eiddo a elwir 'Cwm-bach',

(y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel "**y Brifford**"), o dan Adrannau 116(1), 116(4) a 116(5) o Ddeddf Priffyrdd 1980 ar y sail nad oes angen y Brifford ar gyfer cerbydau modur, ond bod hawliau llwybr ceffylau (cerddwyr, marchogaeth ceffylau ond gan eithrio coetsis a dynnir gan geffylau, a beiciau pedal) ar y Brifford yn cael eu cadw.

Gellir gweld cynllun sy'n dangos, drwy groeslinellu coch, hyd y Briffordd y bwriedir ei chau:

- am ddim yn swyddfa HWB Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor yn Rhif 41 Stryd y Cei, Rhydaman SA18 3BS yn ystod oriau swyddfa arferol; ac
- ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin ar https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/hysbysiadau-cyhoeddus.

Gall unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cais y Cyngor Sir fynychu Llys Ynadon Llanelli ar ddiwrnod y gwrandawiad er mwyn gwneud sylwadau wyneb yn wyneb.

Dyddiedig y 18fed o Dachwedd 2026.

Cyfeirnod y Ffeil: HMD/HT-0572
Llinell Uniongyrchol: 01267 224066
E-bost: HeMDavies@sirgar.gov.uk

WENDY WALTERS
Y Prif Weithredwr
Neuadd y Sir, Caerfyrddin